COFNODION DRAFFT
FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

Cyfarfod rhif pedwar deg un y Fforwm a gynhaliwyd yn y Ganolfan Gymunedol, Froncysllte, Wrecsam, dydd Gwener y 3ydd o Fehefin 2011.

01/11 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

YSGRIFENNYDD:
Caroline Selby

CADEIRYDD:
Mabyn Pickering (MP)

AELODAU:
Gerald Moss (GM)
Tim Stratton (TS)
D Gwynfor Jones (DGJ)
John Cooper-Poole (JCP)
Janet Williams (JW)
Shelagh Roberts (SR)
Bill Stephens (BS)

ERAILL:
Sean Hanratty (SH) CBSW
Siôn Roberts (SR) CBSW
Dave Smith (DS)) CBSW
Catrin Owen (CO) Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ken Mumford (KM) Sylwedydd

Ymddiheuriadau:

Sue Gittins
Edward Wardle
George Kinder
Martin Howarth
John Evans
Toni Proffitt (Sir Ddinbych)
Alun Price (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Caroline Selby yn ysgrifennydd newydd a Bill Stephens yn aelod newydd.

02/11 COFNODION A MATERION YN CODI O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD Y 4YDD CHWEFROR 2011:

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Anfonwyd cerdyn diolch i Carla Hughes.

- **Aelodaeth y Fforwm**

Mae lleoedd gwag yn y Fforwm oherwydd ymddiswyddo. Roedd Peter Cade wedi ymddiswyddo'r bore hwnnw. Oherwydd bod hysbysebu yn ddrud, awgrymwyd hysbysebu am aelodau ar y wefan ac yn y cylchgrawn Cyswllt.
Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yn unol â Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol (Cymru)) 2001:

4 Ni chaiff fforwm gynnal busnes oni bai fod nifer yr aelodau sy'n bresennol, heb gyfrif yr un sy'n cadeirio, yn fwy na thraean yr aelodaeth gyfan.

- **Manylion Cysylltu Aelodau FfMLlW**

Roedd CS wedi diweddaru a dosbarthu rhestr gysylltu ar gyfer FfMLlW.

- **Camfeydd Cul**

Mae'r rhan fwyaf mewn cyflwr digon da ond mae rhai yn gul. Nid yw hyn yn uchel ar restr y blaenoriaethau.

- **Adroddiad Blynyddol Drafft**

Roedd yr Adroddiad ar gael yn y cyfarfod ac roedd wedi ei anfon i'w gyfieithu. Unwaith y bydd wedi ei gyfieithu bydd wedi ei gynnwys ar y wefan.

<u>GWEITHREDU:</u>
CS i drefnu ar gyfer ei gynnwys ar y wefan.

- **Y Cynllun Datblygu Lleol**

Mae TS wedi edrych ar hwn ac mae bron wedi ei gwblhau yn LlCC. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd popeth wedi ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2011. Mae'r FfMLl wedi

gofyn am gael ymgynghoriad ynghylch unrhyw faterion mynediad yn y CDLl. Mae JW wedi ysgrifennu ynglŷn â gofynion gyrru cerbydau a'r CDLl.
Nodwyd bod anawsterau yn digwydd oherwydd bod llawer o adrannau i gysylltu â hwy ynglŷn â mynediad.
Mae MP i holi a yw Fforymau MLl yn ymgyngoreion statudol.

GWEITHREDU:
MP i holi ynghylch statws ymgynghorai statudol.

- **Ceir 4x4 yng Nghefn Gwlad**

Mae MP wedi ceisio cysylltu â phobl yn yr adrannau perthnasol a bydd yn dal ati.
Cafwyd gwybod bod pen Sir Ddinbych o lwybr y Fforddolion (Wayfarers) yn agored.
Dywedodd KM bod GTTD (Gorchmynion Traffig Tros Dro) yn ddilys hyd at ddeunaw mis.
Mae'n rhaid canfod dosbarthiad llwybr y Fforddolion ynghyd â'r adran sy'n gyfrifol amdano.

GWEITHREDU:
Canfod dosbarthiad llwybr y Fforddolion a'r adran.

- **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol:**

Disgwylir gwybodaeth ynglŷn â'r cam nesaf. Nid yw'r ffermwyr yn Nyffryn Ceiriog yn hapus ond mae llawer o'r bobl sy'n byw yn Nyffryn Ceiriog.
Cynhaliwyd cyfarfod yn Wrecsam gyda chyflwyniadau. Mae'r AHNE yn denu £70,000 o gyllid na fydd yn codi os bydd estyniad i'r AHNE.

- **Cynllun Glastir:**

Mae hwn yn dal i gael ei drafod wedi etholiadau LICC ym mis Mai. Disgwylir mwy o wybodaeth.

- **Prosiect Llwybr Cymunedol Brychdyn:**

Prosiect Cymunedau yn Gyntaf Hightown.

GWEITHREDU:
SR i gysylltu ag AW ynglŷn â phrosiect Cymunedau yn Gyntaf Hightown.

- **Wardeiniaid Mynediad:**

Dywedodd SR bod gobaith y byddai gwaith yn dechrau i arolygu llwybrau yn Nyffryn Ceiriog yn yr haf. Byddent yn cysylltu â pherchnogion tiroedd ynglŷn â'r arolwg hwn.

Cyllid WHS– bydd SR yn ymchwilio i hyn. Ni chafodd cais ei wneud am gyllid yr un pryd â'r dynodiad WHS.

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Mae CO wedi bod i gyfarfod yn lle Alun Price. Mae ei chyflogaeth yn dod i ben ym mis Gorffennaf. Y gobaith oedd y byddai un o gynrychiolwyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

- **Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf**

Bydd JW yn cysylltu ag Ymddiriedolaeth Chwarel y Mwynglawdd ynglŷn â chyfarfod efo MP.

03/11 ADRODDIAD Y CADEIRYDD:

Codwyd llawer o faterion o Adroddiad y Cadeirydd o dan Faterion yn Codi.

Roedd mater wedi ei grybwyll ynglŷn â hawlio treuliau. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd edrych ar y drefn i'w dilyn gan wirfoddolwyr i hawlio treuliau a rhoi gwybod i'r aelodau.

Bydd MP a CS yn mynd i gyfarfod Fforymau Mynediad Lleol Cymru yn Llanfair ym Muallt y 7fed o Fehefin Gofynnwyd am ddiweddariad ynglŷn â CGHT gydag adroddiad ar waith y FfMLl gyda'r cyngor lleol.

Wrth gynnal Ymchwiliadau Cyhoeddus, yn dilyn gwrthwynebiadau i Orchmynion Addasiad, mae angen ymchwilio ar raddfa enfawr. Cafwyd awgrym y gallai aelodau'r FfMLl helpu gyda rhywfaint o'r gwaith archifau a throsglwyddo'r wybodaeth i'r person perthnasol. Y gobaith fyddai y gellid talu costau teithio i aelodau am wneud y gwaith hwn.

Dywedodd SH y byddai'n dda ganddo gael cymorth aelodau gydag ymchwilio i'r archifau, yn cynnwys hen fapiau a gweithredoedd. Bydd SH yn e-bostio pan fydd angen gwybodaeth ynglŷn â llwybrau a rhoddodd sicrwydd y byddent yn edrych yn fanwl ar bob gwybodaeth a geid. Bydd yn dod â sampl o ddogfennau i'r cyfarfod nesaf.

Nodwyd bod angen llawer iawn o amser a gwaith swyddfa i brosesu Gorchmynion Addasiad a'i fod yn ddrud.

GWEITHREDU:
CS i edrych ar y drefn ar gyfer hawlio treuliau a rhoi gwybod i'r aelodau.
SH i ddod â detholiad o ddogfennau i'r cyfarfod nesaf.

04/11 ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD:
Nid oedd adroddiad oherwydd bod yr ysgrifennydd newydd ddechrau yn y swydd. Ni chafwyd llythyrau.

05/11 WARDEINIAID MYNEDIAD:
Dosbarthwyd adroddiad a gwahoddwyd cwestiynau. Mae CGHT yn egluro'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod y tair blynedd a aeth heibio.

Windy Hill – cadarnhawyd bod hwn ym Mrymbo.

Mae'r Flash (Brymbo) – lôn werdd, wedi ei defnyddio ers llawer o flynyddoedd a llenwyd ffurflenni ynglŷn â defnydd. Nodwyd, yn unol â Rheoliadau Cynllunio, nad yw addasrwydd yn cael ei ystyried. Hefyd, nid yw hi wedi ei chofnodi fel priffordd. Yn y gyfraith, nid oes ystyriaeth i addasrwydd, diogelwch a synnwyr cyffredin, dim ond i'r dystiolaeth sydd ar gael. Nid yw'r Gorchymyn wedi ei wneud hyd yma oherwydd ei fod gan yr Adran Gyfreithiol ac wedi bod yno am 2 -3 mis. Fel arfer, byddai angen tair wythnos ar gyfer hyn. Wedi trafod, gofynnodd JW am gyfarfod efo SH ynglŷn â'r llwybr newydd arfaethedig a'r broses ynglŷn â hynny.

Rheilffordd Llys Bedydd – nid yw yn yr adroddiad fel Cytundeb Creu.
Nid yw Gorchmynion Creu na Gorchmynion Presennol wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad.

Gorchmynion Addasiad – mae gorchmynion wedi eu gwneud a rhybudd wedi ei roi i'r cyhoedd. Efallai bydd proses faith cyn cadarnhau.

Wedi trafod, cytunwyd y byddai SH yn cyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf yn cynnwys esboniadau hawdd eu dilyn. Gofynnodd SH i'r aelodau ddod â chwestiynau i'r cyfarfod.

Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn sydd wedi ei gyflawni ond nid yn erbyn targedau'r CGHT. Felly, nid ydym yn gwybod pa

gynnydd sydd wedi ei gyflawni neu sy'n cael ei gyflawni yn erbyn y targedau hyn.
Mae'n rhaid i SH wneud penderfyniadau ynglŷn â 5 Gorchymyn Diffiniol pob blwyddyn.
Mae'r targed hwnnw yn cael ei gyflawni.
Mae gan SR darged o 100 o arwyddion y flwyddyn ar lwybrau.

GWEITHREDU:
JW ac SH i drefnu cyfarfod.
Adroddiad i'r cyfarfod nesaf ynglŷn â'r Flash (Brymbo).
SH i gyflwyno adroddiad yng nghyfarfod nesaf y FfMLl.
SR i ymchwilio i gyllid WHS.

06/11 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU:
AHNE – disgwylir gwybodaeth gan y gweinidog.
Bydd Gwlad Agored – 2012 yn adolygu ac adnewyddu mapiau, yn cynnwys coedwigoedd.
Eisteddfod Wrecsam – bydd teithiau cerdded yn digwydd.
Cyllidebau Gwella Hawliau Tramwy – dim mwy o wybodaeth ar gael.
Cytunwyd bod hysbysiadau Hawliau Tramwy yn cymryd amser maith.

07/11 CYNLLUNIO – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF:
Pan geir gwybodaeth, bydd yn cael ei hanfon at bobl sy'n byw un ai yn yr ardal benodol neu gyda diddordeb neu fuddiant penodol.

08/11 UNRHYW FUSNES ARALL:

i) Bronington 37 – mae GM wedi siarad efo Clerc y Cyngor ynglŷn ag ymddygiad perchennog y tir. Cysylltwyd hefyd â CBSW a'r heddlu ynglŷn â hyn. Mae SR wedi siarad efo perchennog y tir a bydd yn gwneud hynny eto ynglŷn â mynediad ac am y llwybr.

GWEITHREDU:
SR i gysylltu â pherchennog y tir.

ii) Gwella llwybr y rheilffordd ger Froncysllte. Mae arwydd yn gwahardd marchogion a beicwyr. Mae map yr AO yn dangos Gorchymyn Addasiad yn ystod y deng mlynedd olaf yn fras. Dylid gwneud Gorchmynion Creu ar gyfer llwybrau marchogaeth. Mae Gorchmynion Addasiad wedi eu gwneud ar

rai rheilffyrdd ynglŷn â llwybrau marchogaeth neu lwybrau cerdded.
Dywedodd JW y byddai o fantais i lawer o bobl pe gellid gwneud rheilffyrdd yn llwybrau ar gyfer sawl math o ddefnyddiwr, heb gerbydau modur. Er mwyn i hyn ddigwydd byddai angen cytundeb perchennog y tir, neu pe byddai perchennog y tir yn anghytuno, byddai angen gwneud Gorchymyn Creu. Maent yn ystyried amlddefnydd yn Sir Y Fflint a hoffai JW pe byddai CBSW yn ystyried amlddefnydd hefyd.
Gofynnwyd i SH ddod â rhestr o hen reilffyrdd sy'n eiddo i CBSW i'r cyfarfod nesaf. Mae'r rhain wedi eu nodi ar y Map Terrier sydd gan yr Adran Rheoli Eiddo. Yn ychwanegol i hyn, byddai angen edrych ar y Map Diffiniol ar gyfer Sir Ddinbych oherwydd bod rhai rheilffyrdd yn croesi'r ffin.

GWEITHREDU:
SH i ddod â rhestr o'r rheilffyrdd sy'n eiddo i CBSW i'r cyfarfod nesaf.

09/11 EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF:
Cyflwyniad gan SH.

10/11 Y CYFARFOD NESAF:
Dydd Gwener, 30ain Medi 2011 yn Neuadd y Dref, Wrecsam - Dechrau 2 o'r gloch y pnawn.

Awgrymwyd y gellid cynnal mwy o gyfarfodydd mewn lleoliadau eraill heblaw Neuadd y Dref. Gallai hyn olygu bod mwy o aelodau cymunedau lleol yn mynychu cyfarfodydd y FfMLl. Pan fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn cymunedau, bydd yr Ysgrifennydd yn cysylltu â chynghorau'r cymunedau lleol i hyrwyddo'r FfMLl ac annog presenoldeb.
Y farn oedd mai mannau cyfarfod efo lle parcio oedd y gorau a chafwyd yr awgrymiadau canlynol: Dyfroedd Alyn, Plas Pentwyn yng Nghoedpoeth a'r Ganolfan Adnoddau yng Ngwersyllt.